Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 07.02.25 |
| **Pwnc / Subject:** | **Llwybrau prentisiaeth** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Diben yr ymgynghoriad

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cynnal ymchwiliad i lwybrau prentisiaeth.

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am farn ar y cylch gorchwyl canlynol:

- Llwybrau rhwng lefelau prentisiaethau: Y graddau y mae heriau wrth fapio llwybrau gyrfa trwy'r gwahanol lefelau prentisiaethau, er enghraifft o brentisiaeth iau i brentisiaeth gradd. P'un a yw hyn yn anos mewn rhai gyrfaoedd / sectorau nag eraill.
- Economi: Y graddau y mae llwybrau prentisiaeth yn cefnogi anghenion busnesau Cymru ac yn cyfrannu at lenwi bylchau o ran medrau yn economi Cymru.
- Cyflogwyr: Ymgysylltiad cyflogwyr o ran hwyluso'r llwybrau hyn a denu prentisiaid. A oes angen cymorth penodol ar gyfer mentrau micro, a mentrau bach a chanolig i ymgysylltu â'r rhaglen prentisiaeth?
- Gwybodaeth am brentisiaethau: Arfer dda rhwng gwasanaethau gyrfaoedd, ysgolion, colegau a chyflogwyr o ran hyrwyddo prentisiaethau a darparu profiad gwaith ystyrlon.
- Cymorth a mynediad teg ar gyfer dysgwyr: Y graddau y caiff llwybrau prentisiaeth eu gwneud yn agored i'r holl bobl ifanc yng Nghymru, ac unrhyw rwystrau sy'n wynebu grwpiau demograffig neu ardaloedd daearyddol penodol.
- Rôl Llywodraeth Cymru: Sut mae polisïau'n cefnogi llwybrau prentisiaeth ac unrhyw rwystrau y mae angen mynd i'r afael â nhw yn hynny o beth. Rôl Llywodraeth Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill mewn nodi a chyfleu anghenion economaidd a medrau i lywio fframweithiau prentisiaeth a chyflwyno cymwysterau.

## Ymateb gan Estyn

- Mae Estyn yn croesawu'r ffocws a roddir ar brentisiaethau. At ei gilydd, mae ein gwaith yn dangos bod prentisiaethau'n rhan hanfodol o ddiwallu ein hanghenion medrau. Cânt eu gwerthfawrogi gan brentisiaid a chyflogwyr ac rydym wedi gweld darparwyr prentisiaethau yn gweithio'n dda gyda

phartneriaid i gynllunio darpariaeth i ddiwallu anghenion rhanbarthol. Gwnaed cynnydd da hefyd o ran sut mae ymarferwyr yn cefnogi anghenion unigol prentisiaid, er enghraifft yn gysylltiedig ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae angen gwaith i barhau i sicrhau y gellir cyflawni buddion llawn y llwybrau prentisiaeth. Yn benodol:

- Nid yw hyrwyddo a mapio llwybrau prentisiaeth rhwng lefelau 2-5 wedi'i datblygu'n ddigonol ac ni wneir hyn ar lefel genedlaethol.
- Nid oes strategaeth genedlaethol glir ar gyfer dysgu 16-19, ac mae gormod o anghysondeb rhwng ardaloedd a darparwyr, ac oddi mewn iddynt.
- Nid oes gan lawer o ddysgwyr ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu yn y gwaith fel prentisiaethau. Ychydig iawn ohonynt sy'n ymwybodol o'r ystod eang o lwybrau prentisiaeth wrth ddewis eu cyrchfan ôl-16 yn yr ysgol.
- Mae toriadau i gyllid wedi lleihau nifer y rhai sy'n cychwyn prentisiaethau.
- Mae enwi'r rhaglen prentisiaethau iau yn broblemus. Mae'n rhaglen cyn-brentisiaeth a gelwir rhaglenni tebyg yn wahanol enwau. Nid prentisiaeth mohoni, ac nid yw wedi'i chynllunio o reidrwydd gyda dilyniant i brentisiaeth mewn golwg.
- Mae angen ystyried ariannu llai o brentisiaethau, yn enwedig ar lefel prentisiaethau uwch, ar gyfer dysgwyr sydd wedi bod yn ymgymryd â'u rolau gwaith ers blynyddoedd lawer. Mae hyn yn cyfyngu ar nifer y newydd-ddyfodiaid ar hyn o bryd.

  Dylai prentisiaethau fod ar gael o lefel 2 bron ym mhob maes dysgu i wneud yn siŵr fod gan ddysgwyr o bob gallu bwynt mynediad i gyflogaeth a hyfforddiant.

- **Llwybrau rhwng lefelau prentisiaethau:** Y graddau y mae heriau o ran mapio llwybrau gyrfa trwy'r gwahanol lefelau prentisiaethau, er enghraifft o brentisiaeth iau i brentisiaeth gradd. P'un a yw hyn yn anos mewn rhai gyrfaoedd / sectorau nag eraill.

Rydym yn cytuno bod hon yn agwedd bwysig i'w hystyried. Rydym wedi rhoi sylwadau isod a allai helpu'r pwyllgor i ystyried ei waith ar yr agwedd hon.

**Prentisiaethau iau**
Nid yw prentisiaethau iau yn rhoi'r un cyfleoedd i ddysgwyr sydd ar gael i ddysgwyr mewn rhaglenni prentisiaethau, er enghraifft cael eu cyflogi a dilyn fframwaith prentisiaeth cymeradwy mewn crefft neu alwedigaeth ddiffiniedig. Dyfeisiwyd y rhaglen gan goleg addysg bellach, mae eraill wedi'i hefelychu ac mae ychydig ohonynt yn cyflwyno rhaglenni tebyg gyda theitl gwahanol. O ganlyniad, mae'r teitl yn gamarweiniol i randdeiliaid allweddol, gan gynnwys ysgolion, rhieni a gofalwyr a chyflogwyr.

Fel y nodwyd yn ein hadolygiad o brentisiaethau iau yng Nghymru[i], mae rhaglen prentisiaethau iau yn cyfeirio at ystod o raglenni amser llawn ag iddynt ffocws galwedigaethol sydd wedi'u lleoli mewn colegau addysg bellach ar gyfer disgyblion

Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Caiff y rhaglenni hyn eu hariannu gan ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Felly, maent yn rhaglen cyn-brentisiaeth, yn hytrach na llwybr prentisiaeth.

Mae data cyrchfannau dysgwyr yn dangos bod llawer o brentisiaid iau yn symud ymlaen yn syth i raglenni addysg bellach ôl-16 prif ffrwd ar gwblhau eu rhaglen prentisiaeth iau, ac ychydig ohonynt yn mynd ymlaen i ddilyn rhaglenni Twf Swyddi Cymru+ neu raglenni prentisiaethau.

Fodd bynnag, adeg ein hymweliadau, roedd rhaglenni prentisiaethau iau yn cael eu cyflwyno mewn 5 yn unig o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru. Pan gyflwynir rhaglenni prentisiaethau iau, maent mewn nifer fach o feysydd galwedigaethol, sef adeiladu a gwallt a harddwch, yn bennaf.

Caiff mynediad at raglenni prentisiaethau iau ei dargedu'n bennaf at ddisgyblion penodol neu grwpiau o ddisgyblion. Mae lleoedd yn tueddu i gael eu blaenoriaethu ar gyfer y rhai sy'n ei chael yn anodd ymgysylltu â darpariaeth ysgolion prif ffrwd ac a oedd yn arbennig mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH). Nid yw'r rhaglenni hyn ar gael ar sail mynediad agored i holl ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11. Er ein bod wedi gweld bod llawer o werth yn y rhaglenni hyn ar gyfer y disgyblion sy'n cymryd rhan ynddynt, mae gan y targedu hwn y potensial i gam-gyfleu gwerth posibl prentisiaethau fel opsiwn ôl-16 ar gyfer yr holl bobl ifanc.

Yn rhan o'r adolygiad hwn, credwn y dylai'r pwyllgor:

- ystyried y canfyddiadau llawn o'n hadolygiad prentisiaethau iau
- ystyried sut dylid datblygu'r rhaglen prentisiaethau iau bresennol fel ei bod yn cael ei chynnig fel opsiwn hygyrch yn deg ar gyfer yr holl ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 ac 11

**Prentisiaeth sylfaen, prentisiaeth a phrentisiaeth uwch**
Er bod llwybrau o lefel 2 i lefel 4 ar draws llawer o feysydd dysgu prentisiaethau, nid yw hyn yn wir ar draws pob sector. Mewn nifer o sectorau, mae'r pwynt mynediad prentisiaeth ar lefel tri. I sicrhau mynediad at hyfforddiant ar gyfer yr holl ddysgwyr a llwybrau dilyniant, mae'n hanfodol bod yr holl feysydd dysgu ar gael o lefel 2.

Nid yw hyrwyddo a mapio llwybrau prentisiaeth rhwng lefelau 2-5 wedi'i datblygu'n ddigonol ac ni wneir hyn ar lefel genedlaethol. Ceir ychydig iawn o enghreifftiau o gydweithio rhanbarthol rhwng darparwyr a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol i fapio darpariaeth a llwybrau dilyniant yn glir. Mae hyn yn ei gwneud yn heriol i brentisiaid presennol neu ddarpar brentisiaid gael dealltwriaeth lawn a diduedd o ba lwybrau sydd ar gael iddynt yn eu rhanbarth.

Caiff y niferoedd sy'n cychwyn prentisiaethau yng Nghymru eu categoreiddio o dan 13 o feysydd pwnc sector bras. Ym mhob maes pwnc sector, ceir rhestr o fframweithiau prentisiaeth sydd wedi cael eu cyflwyno ar draws pob un o'r tair lefel prentisiaeth. Ar gyfer prentisiaethau sylfaen (lefel 2), prentisiaethau (lefel 3) a phrentisiaethau uwch (lefel 4+), ceir ystod eang o sectorau a galwedigaethau y gall

dysgwyr eu dilyn trwy rwydwaith aeddfed o 10 darparwr arweiniol prentisiaethau ledled Cymru. Trwy ein gweithgarwch arolygu, gwelwn pan mae dysgwyr wedi dechrau prentisiaeth ar lefel benodol, eu bod yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt symud ymlaen i lwybr prentisiaeth lefel uwch os yw eu swydd yn caniatáu hynny.

**Prentisiaethau gradd**
Mae nifer gyfyngedig o sectorau galwedigaethol lle mae prentisiaethau gradd ar gael yng Nghymru. Roedd y rhain mewn TG, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch i ddechrau, ac ehangwyd y cynnig yn fwy diweddar i gynnwys adeiladu. Nid oes unrhyw lwybrau prentisiaethau gradd ar gyfer sectorau lle mae bylchau o ran medrau hefyd yn amlwg mewn proffesiynau lle mae mwyafrif y gweithwyr yn fenywod, fel iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae comisiynu cyflwyno prentisiaethau gradd wedi creu rhwydwaith rhanedig o ddarparwyr prentisiaethau, ac mae'r rhwydwaith o ddarparwyr prentisiaethau a oedd yn bodoli o'r blaen bellach yn cyflwyno hyd at lefel 5, a sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn cyflwyno prentisiaethau gradd. Ond ceir enghreifftiau o SAUau yn cyflwyno mewn partneriaeth â darparwyr prentisiaethau, ac mae potensial ar gyfer cystadleuaeth neu ddyblygu rhwng rhaglenni gradd, prentisiaethau gradd a rhaglenni prentisiaethau uwch yn arwain at ddiffyg llwybrau prentisiaethau cydlynus. Er enghraifft, mae gan lawer o ddarparwyr dysgu yn y gwaith raglenni prentisiaethau uwch presennol sy'n cwmpasu tystysgrif genedlaethol uwch neu gymwysterau diploma cenedlaethol uwch ar lefelau 4 neu 5. Yn eu blwyddyn gyntaf, mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni prentisiaethau gradd yn adlewyrchu'r hyn y byddai prentis uwch yn ei astudio ar lefel tystysgrif genedlaethol uwch neu gymhwyster diploma cenedlaethol uwch. Mae hynny'n golygu bod dau rwydwaith o ddarparwyr prentisiaethau sydd o bosibl yn cystadlu am ddysgwyr ar lefel 4 a 5.

Ateb posibl fyddai cyflwyno prentisiaethau ar bob lefel trwy un rhwydwaith o ddarparwyr dysgu yn y gwaith, gan sicrhau manyleb gyson ar gyfer darparwyr ar bob lefel o brentisiaethau. Byddai hyn yn gofyn am gydweithio agosach rhwng SAUau a darparwyr ar lefelau eraill i sicrhau bod llwybrau yn dryloyw a chael gwared ar gystadleuaeth fympwyol. Mae dull o'r fath yn gymesur ag amcanion strategol Medr, sy'n ceisio dod ag addysg drydyddol yn agosach at ei gilydd a chreu llwybrau cydlynus. Byddai'r SAUau yn cadw'r pwerau dyfarnu graddau ar gyfer y cymwysterau sy'n gysylltiedig â'r prentisiaethau gradd.

- **Economi:** Y graddau y mae llwybrau prentisiaethau yn cefnogi anghenion busnesau Cymru ac yn cyfrannu at lenwi bylchau o ran medrau yn economi Cymru.
- **Cyflogwyr:** Ymgysylltiad cyflogwyr i hwyluso'r llwybrau hyn a denu prentisiaid. A oes angen cymorth penodol ar gyfer mentrau micro, a mentrau bach a chanolig, i ymgysylltu â'r rhaglen prentisiaethau?

Yn yr adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru gan Estyn, gwelsom fod gwahaniaethau sylweddol yn yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yn eu hardal leol ar ôl iddynt gwblhau Blwyddyn 11. Caiff yr opsiynau sydd ar gael eu dylanwadu'n gryf gan ddewis iaith a chyrhaeddiad addysgol dysgwr, hefyd. At ei gilydd, nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn

gweithio'n ddigon da. Nid oes strategaeth glir ar gyfer dysgu 16-19 ac mae gormod o anghysondeb rhwng ardaloedd a darparwyr, ac oddi mewn iddynt.

Gwelsom hefyd fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a'r cyngor a ddarperir iddynt. Mae gormod o ddysgwyr nad oes ganddynt ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu yn y gwaith fel prentisiaethau.

Trwy ein gweithgarwch arolygu, gwelwn fod darparwyr arweiniol prentisiaethau yn cynllunio'u darpariaeth yn dda i ddiwallu anghenion eu cymunedau a'u rhanbarthau lleol. Yn gyffredinol, cânt eu llywio'n dda gan bartneriaethau sgiliau rhanbarthol a fforymau diwydiant, a'u cynrychioli'n dda ynddynt. Gwelwn fod darparwyr yn ymatebol ac yn hyblyg, ar y cyfan, i ddiwallu anghenion medrau sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft ymgorffori technolegau trydan a hybrid mewn prentisiaethau cerbydau modur, neu'r medrau sydd eu hangen ar gyfer technolegau gwres adnewyddadwy mewn prentisiaethau adeiladu.

Mae cyflogwyr, bron yn ddieithriad, yn gadarnhaol am yr effaith a gaiff recriwtio a chadw prentisiaid ar eu busnes. Yn gyffredinol, caiff prentisiaid eu hannog i symud ymlaen i lefel uwch nesaf y brentisiaeth.

Mewn llawer o achosion, mae gan ddarparwyr berthnasoedd hirsefydledig ag ystod o gyflogwyr allweddol, y maent yn cofrestru carfanau o brentisiaid gyda nhw yn fynych flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan greu cyfleoedd prentisiaethau hynod fedrus ac sy'n talu'n dda ar gyfer yr ardal leol. Pan mae'r cyflogwyr hyn yn fusnesau aml-genedlaethol, bydd ganddynt ddylanwad sylweddol dros sut, ac ym mha sectorau, y bydd darparwyr yn cynllunio'u llwybrau prentisiaeth.

Y risg gynhenid, fodd bynnag, lle mae darparwyr yn defnyddio'r un cyflogwyr ar gyfer carfanau rheolaidd o ddysgwyr, yw'r gor-ddibyniaeth ar gontractau cyflogwyr mawr o gymharu ag ymgysylltu â busnesau bach a chanolig a busnesau micro, na fydd ganddynt yn nodweddiadol yr adnoddau nac yn cynnig yr arbedion maint o ran recriwtio prentisiaid. Mae hyn yn risg benodol gan fod darparwyr yn ymateb i doriadau mewn cyllid neu'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd i arbed costau o ran ble i ddyrannu eu hadnoddau. Mae cyfleoedd yn bodoli i ymgysylltu'n sylweddol â mwy o gyflogwyr mewn prentisiaethau, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid. Fodd bynnag, mae angen i gyllid fod ar gael i gefnogi'r dysgwyr newydd ychwanegol hyn.

Mae darparwyr prentisiaethau yn ceisio diwallu anghenion yr economi trwy gyflwyno niferoedd mawr o brentisiaethau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae gofyniad deddfwriaethol i gyflogwyr hyfforddi eu gweithlu. Mae hyn yn arwain at alw rheolaidd a mawr am y llwybrau prentisiaeth hyn ar lefelau 2 a 3 ledled Cymru. Y sector gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi recriwtio'r gyfran fwyaf o'r holl ddysgwyr newydd yng Nghymru yn draddodiadol. Yn y sectorau gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus, mae dros ddau o bob tri o'r holl ddysgwyr newydd mewn fframweithiau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys arweinyddiaeth ac arfer broffesiynol mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gofal plant, gan gynnwys arweinyddiaeth, yn cynrychioli'r nifer uchaf nesaf o ddysgwyr newydd. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiadau, ac wrth ymgymryd â

gweithgareddau eraill, gwelwn nad yw pob cyflogwr yn cyflawni ei rwymedigaeth i gefnogi ei brentisiaid yn llawn yn y sectorau hyn. Er enghraifft, ni roddir amser i ffwrdd o'r gwaith i brentisiaid yn ystod eu horiau gwaith i gwblhau asesiadau na mynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, neu caiff yr amser hwn ei dynnu'n ôl ar fyr rybudd oherwydd gofynion parhaus eu rôl ac anghenion eu cyflogwyr. Mae hon yn her ar draws y sectorau, sy'n gysylltiedig â heriau recriwtio eraill yn y sectorau hyn.

- **Gwybodaeth am brentisiaethau:** Arfer dda rhwng gwasanaethau gyrfaoedd, ysgolion, colegau a chyflogwyr o ran hyrwyddo prentisiaethau a darparu profiad gwaith ystyrlon.

**Cyngor ac arweiniad annibynnol ysgolion**

Mae ein tystiolaeth yn dangos yn yr achosion gorau, bod partneriaethau effeithiol ar draws ardaloedd lleol rhwng ysgolion, Gyrfa Cymru, colegau, cyflogwyr a darparwyr prentisiaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo a hysbysebu'r swyddi gwag â phrentisiaethau sydd ar gael yn eu hardal. Fodd bynnag, mae'r math hwn o weithio mewn partneriaeth yn amrywiol ledled Cymru a gall darparwyr prentisiaethau ei chael yn anodd ymgysylltu ag ysgolion. Mae'r mater hwn yn tueddu i fod yn fwy amlwg mewn awdurdodau lleol sydd â chyfran uchel o ysgolion â chweched dosbarth lle mae mwy o gystadleuaeth i ddysgwyr ar lefel ôl-16. Mae'r wybodaeth sydd ar gael i ddisgyblion wrth ystyried eu dewisiadau yn aml yn rhy gyfyngedig, ac mae prentisiaethau'n aml yn cael eu hystyried yn israddol i ddewis cyrsiau Safon Uwch neu raddau prifysgol amser llawn.

Yn sgil ein trafodaethau â phrentisiaid yn ystod gweithgareddau prentisiaeth, ychydig iawn ohonynt sy'n dweud eu bod yn ymwybodol o'r ystod eang o lwybrau prentisiaeth wrth ddewis eu cyrchfan ôl-16 yn yr ysgol. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn dilyn llwybrau fel cyrsiau Safon Uwch a chyrsiau prifysgol cyn dilyn prentisiaeth yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Mae'r gwasanaeth swyddi gwag â phrentisiaethau yn 'siop un stop' lle caiff darparwyr a chyflogwyr eu hannog i hysbysebu eu swyddi gwag â phrentisiaethau. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, ychydig iawn o ddarparwyr a chyflogwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn, ac o ganlyniad, mae'r swyddi gwag â phrentisiaethau sy'n cael eu hysbysebu ar y safle yn gyfyngedig, ar y cyfan.

- **Cymorth a mynediad teg ar gyfer dysgwyr:** Y graddau y caiff llwybrau prentisiaeth eu gwneud yn agored i'r holl bobl ifanc yng Nghymru ac unrhyw rwystrau sy'n wynebu grwpiau demograffig neu ardaloedd daearyddol penodol.

**Anghenion dysgu ychwanegol**
Mae nifer y prentisiaid y nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol (ADY) neu anabledd wedi cynyddu'n gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Bu cynnydd nodedig yn nifer y dysgwyr y nodwyd bod ganddynt anabledd. Dyslecsia yw'r angen dysgu mwyaf cyffredin a nodwyd o hyd. Mae nifer y dysgwyr â Chyflwr y Sbectrwm Awtistig (CSA) wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd, gan gyd-fynd ag ymwybyddiaeth a diagnosis cynyddol. Trwy ein gweithgarwch arolygu,

rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol ymhlith darparwyr o ran capasiti a'r gallu i nodi, canfod a chefnogi dysgwyr ag ADY, a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd.

**Ethnigrwydd**
Yn hanesyddol, ni fu cynrychiolaeth ddigonol o ddysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol mewn prentisiaethau. Fodd bynnag, mae'r darlun wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Rhwng 2018-2019 a 2021-2022, cynyddodd cyfran y dysgwyr newydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn raddol o 3.1% i 4.9%. Yn 2022-2023, mae hyn wedi mwy na dyblu i 10.2%.

**Rhywedd**
Yn hanesyddol, mae'r rhaniad o ran rhywedd mewn nifer o feysydd pwnc sector wedi dangos goruchafiaeth neu ddiffyg cynrychiolaeth sylweddol o brentisiaid sydd naill ai'n wrywod neu'n fenywod. Gwnaed ymdrech ar y cyd i geisio unioni'r fantol mewn rhai sectorau, yn enwedig yn y blynyddoedd diwethaf ar gyfer benywod mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) a phrentisiaethau adeiladu. Yn hanesyddol, benywod yw'r garfan fwyaf sydd â diffyg cynrychiolaeth mewn peirianneg, adeiladu a gweithgynhyrchu. Y sectorau pennaf ar gyfer dechreuadau gan fenywod yw mewn gwallt a harddwch, gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus a gweinyddu busnes. O ystyried niferoedd uchel y dechreuadau mewn gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus ledled y wlad, byddai'r ffaith fod tua 80% o'r holl brentisiaid sy'n dechrau yn fenywod yn ffactor allweddol yn y rhaniad cyffredinol o ran rhywedd lle mae benywod yn fwy amlwg (60%). Hefyd, mae angen ystyried bod cyflogwyr yn recriwtio'u prentisiaid yn y rhan fwyaf o achosion.

**Y Gymraeg**
Dylai'r pwyllgor ystyried cyfle teg i brentisiaid ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae nifer y dysgwyr sy'n dewis cwblhau gwaith neu asesiadau ysgrifenedig yn Gymraeg yn isel.

- **Rôl Llywodraeth Cymru:** Sut mae polisïau'n cefnogi llwybrau prentisiaeth ac unrhyw rwystrau y mae angen mynd i'r afael â nhw yn hynny o beth. Rôl Llywodraeth Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill mewn nodi a chyfleu anghenion economaidd a medrau i lywio fframweithiau prentisiaeth a chyflwyno cymwysterau.

**Toriadau i gyllid**
Mae'r setliad cyllid a gynigir ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn rhwystr allweddol rhag datblygu llwybrau prentisiaeth. Ym mlwyddyn gontract 2024-2025, gwnaed toriad cyffredinol o 14% i ddarparwyr prentisiaethau gyda rhybudd cymharol fach. Mae prif effaith allweddol y toriadau hyn wedi cael ei gwerthuso'n annibynnol gan y Ganolfan ar gyfer Economeg ac Ymchwil Busnes fel a ganlyn:

- mae bron i 6,000 yn llai wedi dechrau prentisiaethau yng Nghymru eleni
- effaith o £50.3 miliwn ar yr economi yn y tymor byr
- y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac adeiladu sy'n cael eu heffeithio fwyaf

- mae toriadau i gyllid yn cael effaith anghymesur ar y rhai mwyaf difrieintiedig ym mhoblogaeth Cymru

**Cymhwysedd**
Yn rhan o'i chomisiwn contract blynyddol i ddarparwyr, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei gofynion cymhwysedd i ddysgwyr allu dilyn prentisiaethau yn dibynnu ar eu hoedran, eu sector a hefyd hyd eu gwasanaeth yn eu rôl swydd bresennol. Bu adegau yn ddiweddar lle mae prentisiaethau yng Nghymru wedi bod yn rhaglenni pob oed, ni waeth beth yw oedran, sector neu hyd gwasanaeth dysgwyr.

Mae angen ystyried ariannu prentisiaethau, yn enwedig ar lefel prentisiaeth uwch, ar gyfer dysgwyr sydd wedi bod yn ymgymryd â'u rolau gwaith am flynyddoedd lawer ac nad oes ganddynt unrhyw awydd i geisio cael dyrchafiad neu chwilio am gyflogaeth amgen o ganlyniad i'w prentisiaethau.

**Adeiladu**
Mae eithriad penodol i lwybrau effeithiol wedi deillio o'r diwygiadau diweddar i brentisiaethau adeiladu, yn sgil cyflwyno prentisiaeth lefel 3 estynedig a chael gwared ar brentisiaeth lefel 2. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr i raglen lefel 3 feddu ar lefel uwch o fedrau gwaelodlin llythrennedd a rhifedd i ddilyn y rhaglen.

Nid oes pwynt gadael bellach ar gyfer prentisiaid ar lefel 2 mewn masnachau adeiladu. O ran yr arwyddion cynnar, mae hyn yn cael effaith negyddol ar allu dysgwyr i ddechrau'r rhaglen ar lefel 3. Mae arwyddion hefyd fod y diffyg llwybr lefel 2 yn y sector hwn wedi cael effaith uniongyrchol ar y nifer sy'n dechrau prentisiaethau, a bod cyflogwyr yn ymddangos yn llai tueddol o ymrwymo i raglen lefel 3 am 3 blynedd neu 4 blynedd, pan mae eu hanghenion medrau ar lefel 2, a gellir cyflawni hyn mewn llai o amser.

**Medr**
Blaenoriaeth strategol allweddol i Medr, yn rhan o'i gynllun strategol cychwynnol, yw ymgynghori a phenderfynu ar sut bydd yn comisiynu neu'n caffael cyflwyno prentisiaethau ar ddiwedd y cylch contractau presennol. Dylai rhan o'r broses gwneud penderfyniadau gynnwys sut i hwyluso datblygiad llwybrau prentisiaeth orau ar bob lefel, gan gynnwys prentisiaethau gradd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno, asesu a sicrhau ansawdd.

---

**Darllen ychwanegol**
[1] Adolygiad o'r rhaglen prentisiaethau iau yng Nghymru
[2] Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru
Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru